

Cynllun Gweithredu Cymdogaeth



GIBBONSDOWN

Y Barri



CYNLLUN GWEITHREDU CYMDOGAETH

I Ystad Gibbonsdown

Dyma'r cynllun gweithredu cymdogaeth ar gyfer ystad Gibbonsdown. Mae Gibbonsdown yng ngogledd y Barri, yn ffinio â Skomer Road yn y gogledd a St Brides Way yn y de, gyda golygfeydd ar draws Sianel Bryste. Adeiladwyd yr ystad gan y Cyngor yn yr 1960'au ac mae'n parhau i gynnwys cartrefi'r Cyngor yn bennaf; fe'i gelwir yn 'Gibby' yn lleol, ac mae ganddi ymdeimlad cryf o gymuned o hyd. Mae Gibby hefyd yn adnabyddus am Pencoedtre Splash Pad sy'n dod â llawer o ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn.


Yn yr 1980au a'r 90au roedd Gibbonsdown yn rhan o'r Project Ystadau Blaenoriaeth (PEP), menter gan y llywodraeth i wella nifer fach o ystadau a oedd 'wedi dirywio' - daeth hyn â buddsoddiad sylweddol a gwasanaeth rheoli tai dwys lleol. Yn fwy diweddar, bu Gibbonsdown yn ardal Cymunedau yn Gyntaf, a denodd yr ardal gryn dipyn o fuddsoddiad wedi'i dargedu ar gael pobl i weithio, gwella iechyd a llesiant a chreu dinasyddiaeth fwy egnïol.

Mae'r ystad wedi newid yn sylweddol, ond mae'n dal i fod yn un o'r wardiau mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg ac yng Nghymru.

Ffeil ffeithiau cymdogaeth

- 30 Mehefin 2017 – Mae 1,722 o bobl yn byw yn Gibbonsdown
- Mae gan yr ardal ddsbarthiad trefol/ gwledig o: Ddinas a thref ddinesig
- Y Bwrdd Iechyd Lleol yw Prifysgol Caerdydd a'r Fro.
- Yr Ardal Heddlu yw Heddlu De Cymru.
- Yr Awdurdod Tân ac Achub yw Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae 483 o eiddo sy'n perthyn i'r Cyngor yn yr ardal, 1 eiddo lesddaliadol a 126 garej. Mae 260 o dai, 100 o fflatiau, 32 o fflatiau i bobl hŷn a 91 o fyngalos i bobl hŷn. Mae'r eiddo o fath adeiladu traddodiadol ac fe'u hadeiladwyd rhwng 1965 ac 1974.



Beth yw Cynllun Gweithredu Cymdogaeth?

Beth yw ei nodau?

Mae Cynllun Cymdogaeth Gibbonsdown yn nodi ystad o flaenoriaethau lleol penodol sy'n bwysig i bobl sy'n byw ar yr ystad. Mae'r Cynllun yn ystyried ystad eang o wybodaeth gan gynnwys canlyniadau ymgynghori â phreswylwyr, canlyniadau'r arolwg boddhad tenantiaid ar raddfa fawr, data economaidd-gymdeithasol gan gynnwys iechyd, cyflogaeth a thlodi ynghyd â themâu cylchol a nodwyd gan staff. Gyda'i gilydd, mae'r wybodaeth hon yn ffurfio'r blaenoriaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl, gan gynnwys materion amgylcheddol, hyrwyddo cymunedau gweithredol ac ymdrin â throsedd a diogelwch.

Nodir nifer o gamau sy'n ymdrin â'r materion blaenoriaeth ar yr ystad, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn gwella'r gymdogaeth a gwneud gwahaniaeth i fywydau tenantiaid.



Gwybodaeth allweddol i'r gymuned

<p>Diogelwch cymunedol</p>	<p>Roedd 60% o denantiaid yn fodlon â'r trefniadau ar gyfer delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, sydd ychydig yn is na chyfartaledd y Fro o 58%.</p> <p>Mae cymdogion swmlyd yn achosi pryder i nifer yn yr ardal gyda 46% o'r tenantiaid yn nodi bod hon yn broblem, yn uwch na chyfartaledd y Fro o 35%.</p> <p>Hefyd roedd defnyddio cyffuriau yn cael ei ystyried yn broblem gan 44% o denantiaid, sy'n sylweddol uwch na chyfartaledd y Fro o 26%.</p> <p>Mewn arolwg tenantiaid diweddar, nododd 74% o'r tenantiaid sy'n byw yn yr ardal eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn.</p> <p>"Rydw i wedi byw yma ar hyd fy oes, rwy'n nabod pawb ac yn fwy na dim, rwy'n teimlo'n ddiogel."</p>
<p>Cyswllt â chwsmeriaid</p>	<p>Dywedodd 82% o'r preswylwyr fod staff yn barod i helpu a theimlai 81% bod staff yn gallu delio â'u hymholiad yn gyflym ac yn effeithiol.</p> <p>Roedd 63% o denantiaid o'r farn ei bod hi'n hawdd cysylltu â'r person iawn sy'n unol â chyfartaledd y Fro o 65%.</p> <p>Cadarnhaodd 50% o denantiaid eu bod yn adnabod y Tîm Cymdogaeth sy'n gyfrifol am yr ardal.</p>
<p>Galw am gartrefi</p>	<p>Mae galw da am gartrefi yn yr ardal hon gyda 29 ymgeisydd ar gyfartaledd yn cynnig am eiddo pan fyddant yn cael eu hysbysebu ar gyfer eu hailosod.</p>
<p>Mynediad at wasanaethau</p>	<p>Mae gan bobl yn y gymdogaeth fynediad da at siopau a gwasanaethau. Mae gwasanaethau bws da sy'n golygu y gall tenantiaid fynd i mewn i ganol tref Y Barri neu ymweld ag archfarchnadoedd yn hawdd.</p> <p>Mae gan yr ystad ysgol gynradd cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg. Mae'r ddwy ysgol yn cynnig digon o leoedd i blant sy'n byw yn y dalgylch.</p> <p>Mae Gibbonsdown yn ardal Dechrau'n Deg, sy'n golygu bod ystad o wasanaethau ychwanegol ar gyfer plant a theuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys meithrinfeydd, grwpiau rhieni a phlant bach, galw heibio, ayb. Rhedir y gwasanaethau o adeiladau cymunedol ar yr ystad.</p>
<p>Ôl-ddyledion rhent</p>	<p>Dywed 80% o denantiaid yr ystad fod eu rhent yn cynrychioli gwerth am arian.</p> <p>Mae 32% o denantiaid mewn ôl-ddyledion rhent sy'n unol â'r cyfartaledd ar draws y Fro o 31%, fodd bynnag mae cyfran uchel o'r tenantiaid yn derbyn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol i helpu i dalu eu costau tai.</p>
<p>Atgyweirio</p>	<p>Yr amser aros ar gyfartaledd am atgyweiriadau oedd 8 diwrnod.</p> <p>Roedd 73% o denantiaid yr ystad yn fodlon â'r gwasanaeth atgyweirio ac roedd 82% yn teimlo bod atgyweiriadau'n cael eu gwneud yn gyflym.</p>
<p>Cyflogaeth</p>	<p>Mae gan y gymdogaeth lefelau uchel o ddiweithdra o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn Y Barri. Mae hyn yn dangos bod rhai pobl yn y gymdogaeth yn cael anhawster cyrchu'r farchnad swyddi ac efallai nad ydynt yn gymwys iawn ar gyfer y swyddi sydd ar gael.</p> <p>Fe wnaeth ardal Gibbonsdown elwa ar y gwasanaethau ychwanegol a ddarperir trwy Cymunedau yn Gyntaf, a nawr Cymunedau ar gyfer Gwaith yn dilyn newid mewn cyllid.</p>
<p>Incwm yr aelwyd</p>	<p>Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau incwm teulu o'i chymharu â chymdogaethau eraill yn y Fro. Dengys hyn y gallai rhai teuluoedd ddiioddef effeithiau amddifadedd a chael problem cael dau ben llinyn ynghyd. Mae 44% o denantiaid â pheth dealltwriaeth o Gredyd Cynhwysol a sut y bydd hyn yn effeithio arnynt.</p>

Trosiant eiddo	Daeth 28 eiddo yn wag y llynedd sydd oddeutu 11% o'r stoc dai. "Mae'n ardal ddistaw a braf"
Tenantiaid gweithgar	Mae Bwrdd Preswylwyr hirsefydlog sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n byw yn Gibbonsdown. Mae'r bwrdd wedi ymgyrchu'n frwd dros yr ardal ac wedi bod yn effeithiol wrth ysgogi newid cadarnhaol gan gynnwys cyfleusterau e.e. parc sblashio, hyrwyddo hawliau tenantiaid a dwyn y Cyngor i gyfrif am wasanaethau a ddarperir. "Bwrdd preswylwyr da, cymdogion braf a goleuadau da"
Trosedd a niwsans	Y prif droseddau yr adroddir amdanynt i'r Heddlu (fesul 100 o bobl) yw YGG (4.1), trais (2.8), difrod troseddol (1.3) a byrgleriaeth (1.1) sydd i gyd y uwch na chyfartaledd y Fro a Chymru.
Iechyd a llesiant	Mae iechyd 20% o breswylwyr yn cyfyngu ar eu gweithgareddau o ddydd i ddydd, ac mae hyn yn debyg i gyfartaledd y Fro. Mae gan y gymdogaeth rai problemau gyda lefelau iechyd ac anabledd pobl o'i chymharu â chymdogaethau tebyg yn y Fro. Gallai hyn ddangos y gallai fod mwy o bobl na'r arferol gyda phroblemau symudedd o un math neu'i gilydd, a'u bod angen rhywfaint o gymorth meddygol tymor hir yn eu cartrefi, ac efallai eu bod yn teimlo'n eithaf ynysig.
Pobl ifanc	Mae cyfran y bobl ifanc sy'n byw yn yr ardal yn debyg i gyfartaledd y Fro a Chymru, gyda 24% rhwng 0-15 oed. Ychydig o ddarpariaeth a wneir ar gyfer pobl ifanc trwy glybiau ieuencid a grwpiau cymdeithasol.
Addysg	Mae lefelau cyrhaeddiad addysgol ymhlith y chwarter isaf o'u cymharu ag ardaloedd eraill yn y Fro gyda sgoriau cyrhaeddiad cyfartalog yn is na'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Hefyd ceir cyfraddau absenoldeb disgyblion uwch yn yr ardal na chyfartaledd y Fro mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Canolfan Blant Gibbonsdown hefyd yn asiantaeth allweddol yn yr ardal sy'n darparu cefnogaeth i blant oed cyn-ysgol a'u teuluoedd.
Mannau agored	Mae amrywiaeth o fannau agored y gallai'r gymuned eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys llain fawr o fan gwyrdd o'r enw Treetops sy'n rhedeg trwy'r ystad, y caeau chwarae o dan St Brides Way a nifer o ddarnau llai o fannau gwyrdd neu fannau parcio o fewn yr ystad. "Yr hyn yr wyf yn ei hoffi am yr ardal yw, y bobl, cynllun yr ystad a pharch tenantiaid"
Graddfeydd yr ystad	Graddiad cyffredinol yr ystad yw 3. Ymhlith y materion sy'n codi dro ar ôl tro, ceir tipio anghyfreithlon, sbwriel a gwrychoedd sydd wedi gordyfu sy'n ffinio â llwybrau ar draws yr ystad.

Gwybodaeth leol:

Archwilio eich ystad

Fel rhan o'r archwiliad cymdogaeth, gofynnwyd i denantiaid nodi'r gwasanaethau pwysicaf iddynt; y tri gwasanaeth uchaf yn yr ardal yw:

- Cyfathrebu'n effeithiol â thenantiaid, gwrandao ar awgrymiadau a gweithredu ar y rhain
- Rheoli ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithiol
- Sicrhau bod atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cael eu gwneud mewn modd amserol i safon uchel.

Pan ofynnwyd i'r tenantiaid beth oeddent yn ei deimlo ddylai fod y blaenoriaethau ar gyfer gwella, amlygwyd y canlynol:

- Gwella diogelwch cymunedol
- Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Gwella parcio yn yr ardal

Er bod y dangosyddion yn dangos tueddiadau defnyddiol ac yn dangos y ffordd inni i'r cyfeiriad cywir, mae angen mwy o wybodaeth leol arnom i adnabod rhai o'r materion penodol y mae angen inni ymdrin â hwy.

I gasglu'r wybodaeth hon, rydym wedi cynnal archwiliad cymdogaeth, gan holi pobl sy'n byw ac yn gweithio yma i nodi beth yw'r problemau yn eu barn nhw.

Barn/sylwadau preswylwyr	
Mae rhai problemau niwsans cymdogion yn y gymdogaeth; yn bennaf o ran sŵn ac ymddygiad anystyriol. Fodd bynnag, bu rhai digwyddiadau mwy difrifol o aflonyddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â chyffuriau mewn rhai ardaloedd penodol o'r gymdogaeth a digwyddiadau o fyrgleriaeth manteisgar yn ystad misoedd yr haf.	Mae amllder pobl yn symud i mewn ac allan o'r gymdogaeth yn isel ac mae'n hawdd gosod y mwyafrif o eiddo, fodd bynnag mae problemau gosod fflatiau mewn rhai blociau.
Mae ymddangosiad y gymdogaeth yn dda gyda llawer o fannau gwyrdd; fodd bynnag, mae problem sylweddol gyda thipio anghyfreithlon ac mae rhai ardaloedd ger y siopau o'r fflatiau yn dioddef o sbwriel. Mae hefyd rai problemau gyda'r tanffyrdd yn Dale Court, Pendoylan Close, Manorbier Court a Laleston Close. Mae sawl coeden yn y gymdogaeth mewn cyflwr gwael ac mae darnau o dir a ddefnyddir y gellid eu troi at well defnydd.	Mae hefyd rai problemau gyda chyflwr gerddi a ffensys mewn rhai ardaloedd oherwydd cynnal a chadw a ffensys gwael.
Mynegwyd pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn yr ardal ac mae'r Bwrdd Preswylwyr yn parhau i bryderu ynghylch maint a chyflwmder y traffig sy'n dod trwy'r ardal. Mae St Brides Way yn creu pryder arbennig.	There are also some problems with the condition of gardens and fences in some areas due to maintenance and poor fencing.
Mae pocedi o eiddo yn y gymdogaeth yn adrodd am broblemau gyda lleithder.	Mae grŵp preswylwyr hirsefydlog yn gweithredu yn yr ardal ac maent yn parhau i weithio ar ran preswylwyr i sicrhau newid cadarnhaol.
Mae rhai rhannau o'r ystad wedi'u goleuo'n wael ac ynghyd â llwybrau troed anwastad, sy'n berygl i gerddwyr.	Mae darparu clybiau a gweithgareddau i bobl ifanc yn bwysig
Gellid defnyddio adeilad Canolfan Hamdden Holm View er budd y gymuned; un cyfle sy'n werth ei archwilio ymhellach yw darparu lleoliad ar gyfer hyfforddiant sgiliau, profiad gwaith, gweithdai neu gyflwyno prentisiaethau.	Mae lle i wella'r defnydd o Hyb Aberaeron, yn enwedig ar gyfer clybiau anffurfiol e.e. gemau, gwau, ffotograffiaeth, gwaith cartref ayb.

Camau Gweithredu

Beth?	Pam?	Pryd?
Materion amgylcheddol		
Nodi opsiynau i leihau problemau storio sbwriel a'r effaith ar ymddangosiad y gymdogaeth.	Gwella ymddangosiad y gymdogaeth.	0 fewn 6 mis
Ymgynghori â thenantiaid lleol i ddatblygu cynllun adfywio ystad i wella diogelwch, gan gynnwys goleuadau, teledu cylch cyfyng posib, isffyrdd, ffensio ayb.	Gwella diogelwch cymunedol.	0 fewn 12 mis
Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned leol i gynyddu'r ddarpariaeth o finiau sbwriel mewn lleoedd cymunedol a chasglu sbwriel i ymdrin â phroblemau parhaus gyda sbwriel.	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth a gwella'r amgylchedd lleol. Lleihau'r achosion o daflu sbwriel achlysurol yn y gymdogaeth a lleihau lefel baeddu cŵn mewn ardaloedd cyffredin.	0 fewn 6 mis
Datblygu rhaglen wella ar gyfer y safleoedd garejys i ddod â'r lle yn ôl i ddefnydd	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Gwella trefniadau parcio lleol.	0 fewn 6 mis
Gweithio gyda phreswylwyr i archwilio opsiynau ar gyfer defnyddio mannau gwyrdd ar yr ystad gan gynnwys Treetops.	Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ymddangosiad cyffredinol y Gymdogaeth. Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon. Darparu gweithgareddau cymunedol. Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.	0 fewn 6 mis
Gweithio gydag ysgolion lleol a grwpiau ieuencid i greu ymgyrch i ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon yn yr ardal	Ymdrin â sbwriel a thipio anghyfreithlon. Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Gwella ymgysylltiad cymunedol.	0 fewn 12 mis
Mewn partneriaeth â Phriffyrdd, adolygu llwybrau a phalmentydd lleol i sefydlu cynllun ar gyfer gwelliannau.	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth.	0 fewn 3 blynedd
Gweithio gyda'n gwasanaeth Parciau i sicrhau y darperir gwasanaethau torri gwair a chynnal a chadw tir o ansawdd uchel, gan gynnwys mynd i'r afael â chwyn a gordyfiant.	Gwella ymddangosiad cyffredinol y gymdogaeth. Darparu rhent gwerth am arian.	0 fewn 6 mis

Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
Trosedd a diogelwch		
Cynyddu'r wyliadwriaeth ffisegol mewn manau problemus ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG) gan weithio mewn partneriaeth â'r Heddlu a Bro Ddiogelach	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 12 mis
Gweithio gyda'r Heddlu a Bro Ddiogelach ar wella diogelwch a chynllun plismona mwy cyffredinol sy'n targedu defnyddio cyffuriau ac alcohol, troseddau cerbydau a throsedd yn erbyn grwpiau agored i niwed.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Gwella ansawdd bywyd cyffredinol pobl sy'n byw yn yr ardaloedd hyn. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 12 mis
Sefydlu gweithgareddau Gwarchod Cymdogaeth i gynyddu lefel gwyladwriaeth yn y gymdogaeth ac felly cynyddu'r teimlad o ddiogelwch a grymuso yn erbyn trosedd, gan gynnwys nodi tenantiaid agored i niwed sydd wedi, neu a allai fod wedi, dioddef trosedd.	Gwella diogelwch cymunedol. Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. Gwella ymgysylltiad cymunedol. Cefnogi tenantiaid agored i niwed.	O fewn 6 mis
Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Ieuencid a'r Tîm Buddsoddi Cymunedol i ddatblygu gweithgareddau dargyfeiriol gyda phobl ifanc trwy weithgareddau allgymorth e.e. Pêl-droed, Clwb Beicio ayb.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. Darparu gweithgareddau cymunedol. Cefnogi gyda hyfforddiant a chyffogaeth.	O fewn 6 mis
Adeiladu rhwydwaith o hyrwyddwyr tenantiaid a fydd yn gweithredu fel "cymdogion da" i gefnogi pobl sy'n byw yn yr ardal leol ac adrodd am unrhyw bryderon i'r Tîm Cymdogaeth neu PCSO's fel y bo'n briodol.	Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwella diogelwch cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 6 mis
Mewn partneriaeth Prifffyrdd a phreswylwyr lleol, adolygu goleuadau stryd a goleuadau ardaloedd cymunedol presennol i weld a oes lle i wella hyn.	Gwella diogelwch cymunedol. Ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Cefnogi tenantiaid agored i niwed. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	O fewn 12 mis

Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
Cymunedau gweithgar		
Hyrwyddo Bancio Amser a chynyddu nifer o oriau gwirfoddoli tenantiaid.	Datblygu cysylltiadau cymunedol da. Darparu mwy o weithgareddau cymunedol Datblygu mannau gwyrdd a gwella'r amgylchedd. Cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant.	0 fewn 6 mis
Adolygu'r defnydd o Hyb Aberaeron i weld a allai gwasanaethau cymunedol wneud gwell defnydd o'r cyfleusterau gyda'r nos neu ar benwythnosau. Mae hyn i gynnwys y posibilrwydd o gynhyrchu incwm i gefnogi gweithgareddau sydd eisoes yn rhedeg o'r HUB.	Darparu mwy o weithgareddau cymunedol. Cefnogi cynhwysiant digidol. Cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	0 fewn 12 mis
Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol, sefydliadau a thenantiaid i ddatblygu dewislen o weithgareddau ymgysylltu â phobl ifanc yn yr ardal, gan gynnwys sefydlu fforwm tenantiaid ieuencid ar gyfer yr ardal (gan dargedu pobl ifanc 16 i 25 oed). Adolygu gweithgareddau yn yr ardal i blant, gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol i weld sut y gallwn gefnogi hyn.	Gwella gwasanaethau lleol. Adeiladu ymgysylltu cymunedol. Darparu gweithgareddau cymunedol. Gwella iechyd a llesiant. Gwella diogelwch cymunedol.	0 fewn 12 mis
Datblygu dewislen o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r gymuned yn yr ardal i ddod â'r gymuned ynghyd ac i wella ymgysylltiad â'r Tim Cymdogaeth.	Darparu gweithgareddau cymunedol. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus. Gwella cyfathrebu rhwng tenantiaid o'r Tim Cymdogaeth.	0 fewn 12 mis
Ymgynghori â thenantiaid i nodi pa wasanaethau cyflogaeth a hyfforddiant yr hoffent eu cyrchu. Creu pecyn wedi'i deilwra ar gyfer preswylwyr sy'n byw yn yr ardal, gan gynnwys datblygu rhaglen gan ddefnyddio'r cyllid Budd Cymunedol o Holm View a datblygiad Brecon Court.	Darparu mwy o weithgareddau cymunedol. Cefnogi cyflogaeth a hyfforddiant. Adeiladu cymunedau cryf a chydlynus.	0 fewn 12 mis

Camau gweithredu (parhad)

Beth?	Pam?	Pryd?
<p>Gweithio gyda'n Tîm Atgyweirio Ymatebol i redeg gwasanaethau adrodd am atgyweiriadau yn y gymuned a chael swyddogion yn mynychu sy'n gwneud atgyweiriadau ar adeg adrodd.</p> <p>Gweithio gydag Atgyweiriadau Ymatebol a Thenantiaid i adolygu sut y gallwn ddatblygu'r gwasanaeth atgyweirio ymhellach i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a thenantiaid yn well.</p>	<p>Cynnal ansawdd cyffredinol y cartref. Sicrhau fod atgyweiriadau a chynnal a chadw yn cael eu cwblhau i safon uchel mewn modd amserol.</p>	<p>O fewn 12 mis</p>

Sut i gysylltu â ni:

Dros y ffôn:

01446 700111

Drwy e-bost:

housingmanagementteam@bromorgannwg.gov.uk

 @valehomes  Cartrefi'r Fro

Yn ysgrifenedig:

Depo'r Alps, Quarry Road, Gwenfô CF5 6AA

Drwy'r we:

www.bromorgannwg.gov.uk

Yn bersonol:

Derbynfa Tai, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn,
Y Barri

8:30 i 5:00 pm o ddydd Llun i ddydd Iau

8:30 i 4:30 pm dydd Gwener

